

Polisi iaith Cyngor Tref Porthmadog

Nod Strategol Cyngor Tref Porthmadog

Mae gwarchod a chynnyddu defnydd yr iaith Gymraeg yn nod strategol gan y Cyngor .

IAITH WEITHREDOL

Cymraeg ydi iaith weithredol Cyngor Tref Porthmadog. Gwarchodir rhag newid iaith weithredol Cyngor Tref Porthmadog o fod yn uniaith Gymraeg, gan nodi fod y Cyngor yn hyrwyddo cymuned ddwyieithog lle gellir cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal.

Petai amgylchiadau'n codi lle byddai unigolyn sydd ddim yn medru siarad Cymraeg a Saesneg yn mynychu pwyllgor neu'n aelod o'r Cyngor, cyfrifoldeb yr unigolyn hwnnw fydd trefnu'r modd y bydd yn cymryd rhan yng ngwaith y Cyngor. Os golyga hyn unrhyw gost ariannol yr unigolyn fydd yn gyfrifol am ei dalu.

COFNODION.

Darperir cofnodion y Cyngor yn yr iaith weithredol. Mae gan aelodau o'r cyhoedd hawl i archwilio'r cofnodion drwy drefniant efo'r clerck. Mae'r Cyngor yn caniatáu i'r cofnodion gael eu cyfieithu i unrhyw iaith, ond ni fydd y cyngor yn gyfrifol am unrhyw wallau neu gamddehongliadau a all ymddangos mewn cyfieithiadau o'r cofnod gwreiddiol.

ADOLYGU.

Bydd y Cyngor yn adolygu'r polisi pan fydd holl Gynghorau Sir a Chymuned gweddill Cymru yn gweithredu trefn ddwyieithog gytbwys.

Arwyddwyd: *Cynghorydd Llywelyn Rhys*
Cadeirydd 2021/2022

Dyddiad : Mai 11 2021

